

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Mr John Williams, 5 Rhes y Graig, Llanberis a'r teulu yn y brofediigaeth o golli ei briod Olga yn Ysbyty Gwynedd ddiwedd yr wythnos. Cynhelir gwasanaeth angladd yn Capel Coch am 1.30 o'r gloch ddydd Gwener, Mawrth 20.

Casgliad y Genhadaeth

Dros y mis nesaf byddwn yn gwneud y casgliad blynyddol yn Capel Coch at Gronfa Genhadol Chwiorydd, Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Gellir rhoi eich cyfraniad i Miss Dilys Mai Roberts neu i'r casglyddion a fydd yn dod o amgylch fel arfer.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Mawrth 22: Bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch. Am 5.00 o'r gloch, cynhelir y Cyfarfod Sefydli yng nghapel Carmel Llanllechid.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Mawrth 22: Cynhelir Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch. Am 5.00 o'r gloch, cynhelir y Cyfarfod Sefydli yng nghapel Carmel Llanllechid.

Y mis nesaf - Deiniolen

Mawrth 15

10.00 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mawrth 22

10.00 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Yr Oedfa Sefydli
yng Ngharmel Llanllechid

Mawrth 29

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg W R Williams

REHOBOTH

Dydd Sul, Mawrth 22: Am 5.00 o'r gloch, cynhelir Cyfarfod Sefydli yng nghapel Carmel Llanllechid.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Mawrth 19: Cynhelir 'Bwrlwm' am 2.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Mawrth 22: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Am 5.00 o'r gloch, cynhelir Cyfarfod Sefydli yng nghapel Carmel Llanllechid.

CARMEL

Dydd Llun, Mawrth 16: Cynhelir y 'Te Bach' yn y festri rhwng 2.30 a 4.00 o'r gloch.

Nos Wener, Mawrth 20: Cynhelir 'Dwylo Prysor' am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Mawrth 22: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Am 5.00 o'r gloch, cynhelir Cyfarfod Sefydli yng nghapel Carmel.

CYNLLUN EFE

Dydd Llun, Mawrth 16: Dydd Gweddi Efe yng Nghapel y Rhos, Llanrug rhwng 2.00 ac 8.00 o'r gloch. Manylion y tu mewn i'r rhifyn hwn.

Dydd Gwener, Mawrth 20: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caethro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.

Y mis nesaf - Llanberis

Mawrth 15

10.00 a.m. - Mr John Hughes
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa Parti Bytholwyrdd

Mawrth 22

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Yr Oedfa Sefydli
yng Ngharmel Llanllechid

Mawrth 29

10.00 a.m. - Mr John Hughes
11.15 a.m. - DIM YSGOL SUL
5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 629 Dydd Sul, 15 Mawrth, 2015

Ystyriwch y lili

Y lili wen fach a ddaw i'm meddwl i wrth glywed geiriau Iesu Grist yn y Bregeth ar y Mynydd, 'Ystyriwch lili'r maes'. Go brin mai am yr eirlysiau y soniai Iesu chwaith. Mae'n bosibl mai cyfeirio'n gyffredinol a wnâi at flodau gwyllt. Does dim rhaid gwybod at ba flodau'n union yr oedd yn cyfeirio er mwyn deall ystyr ei eiriau. Ond ar ddechrau'r gwanwyn, cystal i ni feddwl am y lili wen fach ag am yr un blodyn arall wrth ystyried neges Iesu.

Ymddangosiad yr eirlysiau yw un o arwyddion cyntaf deffro'r gwanwyn bob blwyddyn. Roedd eu gweld wedi ymwithio trwy'r pridd, a hyd yn oed trwy weddill dail pydredig yr hydref, yn rhyfeddod eleni eto. Mor eiddil yr olwg, mor brydferth a chywrair, ac eto mor gryf ac mor gyforiog o fywyd. Daethant eto'n ernes o'r gwanwyn newydd y buom yn disgwyl amdano.

Mae Iesu'n ein hatgoffa mai Duw sy'n rhoi bywyd i'r blodau. Mae yna egni rhyfeddol ym mynd natur, ac ym mhob eirlys bychan mae'r egni hwn ar waith yn sicrhau tyfiant a phrydferthwch. Ac eto, fe ddywed Iesu, 'Nid ydynt yn llafurio nac yn nyddu'. Dweud a wna nad y blodyn ei hun sy'n gyfriol am y tyfiant, ond Duw. Nid oes gan hyd yn oed y brenin Solomon, gyda'i gyfoeth a'i foethusrwydd diarhebol, wisg mor brydferth â gwisg 'blodau'r maes'. Ac y mae hynny, medd Iesu, am fod Duw yn rhoi bywyd iddynt ac yn eu cynnal.

Gellid tybio mai cyflwyno gwers natur y mae Iesu yn y rhan hon o'r Bregeth gan ei fod yn sôn hefyd am 'adar yr awyr' ac am 'laswellt y maes'. Mae'n pwysleisio mai'r Arglwydd Dduw yw Crewr a Chynhaliwr byd natur a'i holl ryfeddod. Ond nid dyna'r prif beth y mae am ei ddangos chwaith gan mai defnyddio gofal Duw am fyd natur a wna er mwyn dangos a phrofi gofal Duw amdanom ni ei bobl.

Mae'n sôn am fyd natur ac am ofal Duw amdano er mwyn dangos nad oes angen i ni bryderu am unrhyw beth. Yr ydym ni'n fwy gwerthfawr yng ngolwg Duw na phethau mwyaf hardd a chywrair y Cread. Mae Duw'n deall ein holl anghenion, ac yn darparu ar ein cyfer. Mae Iesu'n dweud wrthym am ymddiried yn ein Tad nefol sy'n gwybod fod arnom angen bywyd a diod a dillad. At ddiwedd yr adran hon o'r Bregeth, mae Iesu'n dangos fod pawb yn ceisio'r pethau hyn, ond bod rhaid i'w ddilynwyr ef geisio pethau eraill ac amgenach.

'Ceisiwch yn gyntaf,' meddai, 'deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef.' Yn hytrach na threulio'n hamser yn poeni am bethau ac am yr hyn a all ddi-gwydd, fe ddylem geisio dod â'n holl fywyd dan awdurdod Duw, er mwyn iddo Ef deyrnasu ac er mwyn i bob dim yn ein bywyd ni ac ym mywyd ein cymdeithas fod yn gyfiawn yn ei olwg Ef. Cawn ein hannog i geisio hyn, gan gofio'r un pryd mai pethau a roir gan Dduw yw'r rhain hefyd.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed bendith Duw ar ein haddoliad. Croeso i'r rhai a fydd yn arwain yr addoliad heddiw, a diolch iddynt am eu cymorth.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr John H Hughes. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Bydd yr oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal aelodau Parti Bytholwyrdd.

Bydd yr Oedfa Deulu yn Neiniolen am 10.00 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog.

Ni fydd oedfa yn Rehoboth heddiw.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Parchg Euros Wyn Jones, Llangefni.

Cynhelir Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch, a gwasanaethir yn yr oedfa am 2.00 o'r goch gan y Parchg Gareth Edwards, Deganwy.

Dydd Gweddi Efe

Bydd Cynllun Efe yn cynnal Dydd Gweddi yng Nghapel y Rhos, Llanrug, YFORY, ddydd Llun, Mawrth 16, rhwng 2.00 ac 8.00 o'r gloch.

Gwahoddir pawb sydd â diddordeb yng ngwaith Efe i ddod yno pa bryd bynnag fydd yn hwylus yn ystod y pawns a'r gyda'r nos. Nid oes rhaid i neb ddod am y cyfnod cyfan, ond bydd croeso i bobl bicio i mewn am gyfnod, hyd yn oed os mai ychydig funudau fydd hynny.

Bydd y cyfan mor anffurfiol ag y bo modd, a dim pwysau ar neb i gymryd rhan 'yn gyhoeddus'. Mae amryw o bobl wedi cytuno i arwain yr addoli a'r gweddio am gyfnodau penodol. Bydd cyfle am baned a sgwrs bob hyn a hyn yn ystod y dydd.

Am ragor o fanylion cysylltwch ag Andrew neu'r Gweinidog.

Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd. Mae Mrs Phyllis Evans, Erw Las, Bethesda yn Ysbyty Gwynedd a dymunwn adferiad buan iddi.

Swper Gymdeithas

Roedd Swper Blynnyddol Cymdeithas Undebol Llanberis yng Ngwesty'r Dolbadarn nos Fawrth diwethaf. Y gwsteion oedd Mr a Mrs Gwyn Hefin Jones, Brynrefail, a chafwyd hanes rhai o'u teithiau i wahanol rannau o'r byd trwy sgwrs a llun. Estynnwyd croeso iddynt gan Miss Dilys Mai Roberts a chyflwynwyd y diolchiadau gan Mr Robin Jones.

Daw tymor y Gymdeithas i ben y mis nesaf gydag ymweliad â Pherllan Pant Du, Penygroes nos Fawrth, Ebrill 14.

Nos Sul nesaf, Mawrth 22

Yr Oedfa Sefydlu yng nghapel Carmel, Llanllechid am 5.00 o'r gloch

Oedfa Sefydlu'r Parchg John Pritchard yn weinidog eglwysi Bethlehem a Charmel.

Croeso i aelodau eglwysi'r Ofalaeth a chyfeillion yr eglwysi i ddathlu'r Sefydlu ac i nodi ehangu'r Ofalaeth.

Bydd lluniaeth ysgafn yn y festri ar ôl yr oedfa.

Bws yn cychwyn o Ddeiniolen am 3.55 o'r gloch gan droi'n ôl yn Rhydfadog; ymlaen wedyn i groeslon Racca erbyn 4.05; yna i Lanberis, gan droi'n ôl ger Rhos y Faenol am 4.15, a dod trwy'r pentref gan aros yn y manau arferol. Pris y bws fydd £4.

Os ydych am ddod ar y bws rhwch wybod i Miss Dilys Mai Roberts yn Llanberis neu Miss Marian Jones yn Neiniolen os gwelwch yn dda. A chofiwch roi gwybod iddynt os byddwch wedi rhoi eich enw ac yna'n methu â dod am unrhyw reswm, rhag i'r bws aros amdanoch yn ofer.

Apêl Flynyddol Efe

Daeth yn amser i gyflwyno Apêl Flynyddol Cynllun Efe, sy'n cynnal Andrew Sattatree yn weithwr ieuencid Cristnogol ym mro Eco'r Wyddfa. Y nod yw cyflwyno'r Efengyl i Fro'r Eco, a llythrennau cyntaf y geiriau hyn sy'n rhoi'r enw 'Efe' i ni.

Ddwy flynedd yn ôl, aed ati i geisio mwy o bobl i gyfrannu'n ariannol at y gwaith am ein bod yn sylweddoli mai arnom ni yn lleol yr oedd y cyfrifoldeb a'r fraint o gefnogi'r gwaith hwn. Cyflwynwyd cynlluniau 'Un o Gant' ac 'Un o Fil'. Y syniad oedd cael 1000 o bobl i gyfrannu £20 y flwyddyn at y gwaith, a 100 o bobl i gyfrannu £100. Cafwyd cefnogaeth hael gan lawer, a gwerthfawrogwn hynny'n fawr iawn. Mae rhai wedi ymrwymo i gyfrannu yn fisol neu'n flynyddol, ac eraill yn ymateb i'r Apêl Flynyddol a wneir erbyn hyn bob mis Mawrth. (Gellir cyfrannu

unrhyw adeg o'r flwyddyn wrth gwrs, ond mae'r Apêl Flynyddol yn rhoi cyfle arbennig i ni atgoffa ein cefnogwyr o'r angen ariannol.) Os medrwch gyfrannu unrhyw swm, byddwn yn ddiolchgar iawn i chi. Os ydych eisiau rhagor o wybodaeth am waith Efe cysylltwch â'r Gweinidog. Mae sicciau i'w gwneud yn daladwy i 'Cynllun Efe'.

Beiblau Aber

Soniais yr wythnos ddiwethaf am gwyn rhai o fyfyrwyr Aberystwyth am y Beiblau yn llety'r Brifysgol. Roeddwn yn falch o gael gwybod gan ffrind i mi bod y myfyrwyr wedi cynnal y bleidlais. Penderfynwyd peidio â galw am wahardd y Beiblau ond y dylai'r sawl sy'n dymuno peidio â chael Beibl wneud cais am hynny. Roedd yn dda clywed hynny, ond gwell fyth oedd deall bod awdurdodau'r Brifysgol wedi cyhoeddi na fyddai'r polisi o osod Beibl yn llety'r myfyrwyr wedi ei newid hyd yn oed pe byddai'r myfyrwyr wedi mynnu hynny.